Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Michelle Hughes**

**Moelfre**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

Adroc heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/09/2019

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Michelle Hughes wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 9 o blant o'i chartref ym Moelfre, lle mae'n byw gyda'i theulu. Gall plant hyd at 12 oed fynychu'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8am a 5.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r tŷ ar ystad ac mae ganddo ardd addas ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac mae cyfleoedd cyfartal i'r plant gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
| --- | --- |
| Llesiant | **Rhagorol** |
| Gofal a Datblygiad | **Rhagorol** |
| Yr Amgylchedd | **Da** |
| Arwain a Rheoli | **Da** |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth hwn yn llawn cymhelliant, yn fywiog ac yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Mae amrywiaeth helaeth a chyffrous o weithgareddau yn cael eu darparu sy'n hyrwyddo datblygiad a mwynhad, ac sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r gwarchodwr plant yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant unigol ac mae'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag atynt. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn annog y plant i ddysgu a bod yn chwilfrydig. Mae'r gwarchodwr plant yn frwdfrydig am ei rôl, mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, ac mae'n benderfynol o wneud gwahaniaeth i fywydau'r plant. Mae'n cwblhau cyrsiau i wella ei gwybodaeth a'i sgiliau.

### 2. Gwelliannau

Yn dilyn argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi nodi'r dyddiad ar ei dogfennau er mwyn ei gwneud yn eglur pryd y bydd adolygiadau wedi cael eu cynnal, a phryd y byddant yn cael eu cynnal.
Hefyd, mae'r gwarchodwr plant wedi gwneud newidiadau i gofnodion digwyddiadau er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi cofnodi un argymhelliad ar gyfer thema Arwain a Rheoli. Dylai'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn anfon copi o'i hadolygiad blynyddol o ansawdd y gofal i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

## 1. Llesiant Rhagorol

### Crynodeb

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac mae eu barn a'u diddordebau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r plant wrth eu bodd ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn teimlo'n ddiogel ac mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad o berthyn mewn amgylchedd magwrus sy'n annog eu datblygiad a'u hunanhyder. Mae'r plant yn rhyngweithio'n effeithiol, yn datblygu cydberthnasau agos, ac yn cydweithredu'n frwdfrydig.

### Ein canfyddiadau

Gwrandewir ar leisiau'r plant yn gyson yn y gwasanaeth hwn. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn glir iawn ac yn cael ymatebion ystyrlon parhaus. Gwnaethom gyrraedd pan roedd y plant yn cael brecwast; esboniwyd ein hymweliad iddynt yn glir, a gwnaethant barhau i fwyta a sgwrsio’n hapus. Roedd y plant yn hyderus wrth gyfleu eu dymuniadau pan ofynnwyd iddynt a oeddent am ffedog i baentio, wrth ddewis caneuon i'w canu ac wrth fynegi nad oeddent yn hoffi bwydydd penodol adeg byrbryd. Cynigwyd dewisiadau eraill i'r plant yn unol â'u dymuniadau. Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi'n fawr, ac mae'r gwarchodwr plant yn eu nodi ar nodiadau 'post-it' sy'n cael eu cadw'n ddiogel mewn ffeil a'u bwydo i mewn i gynlluniau gweithgareddau – gwelsom dystiolaeth o hyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn ymdopi'n dda iawn â bod ar wahân i'w rhieni gan fod arferion dyddiol effeithlon mewn amgylchedd gofalgar yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion ac roedd pob un ohonynt yn frwdfrydig pan roeddent yn darllen neu'n chwilio drwy'r llyfrau yn dawel wrth aros i'r gweithgaredd nesaf ddechrau. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn gan fod eu gwaith yn cael ei arddangos, ac maent yn defnyddio tŷ model a ffigurau ar y wal i gofrestru eu hunain. Roedd y plant yn frwdfrydig wrth iddynt drafod a chwblhau'r gweithgareddau, yn enwedig wrth chwarae â'r tywod.

Roedd y plant yn naturiol gwrtais iawn heb fod angen eu hatgoffa, er enghraifft, pan roeddent yn eistedd yn darllen tra bod gweithgaredd paentio yn cael ei baratoi, gwelsom un plentyn yn darllen stori i'r lleill. Roedd y plant yn rhyngweithio'n llawn brwdfrydedd â'r gwarchodwr plant wrth iddynt gael eu hatgoffa i ddangos empathi tuag at eraill. Gwelsom y plant yn chwarae'n fodlon gyda'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill wrth gymryd eu tro a rhannu yn ystod gweithgaredd paentio. Roedd y plant yn ymgysylltu'n llwyr a gwnaeth un plentyn siarad yn llawn brwdfrydedd am yr hyn roedd wedi'i ddysgu am wenyn yn creu mêl.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn llwyr ymroi i chwarae a dysgu. Gwelsom y plant yn chwarae a dysgu wrth y bwrdd synhwyrau a oedd yn pwysleisio thema'r hydref. Wrth iddynt chwarae, roedd y plant yn dysgu am natur yn ystod yr hydref, yr anifeiliaid sy'n cysgu drwy'r gaeaf, ac yn cael y cyfle i deimlo concyrs, mes a dail, a reis lliw. Roedd hyn yn rhoi cyfle ysgogol i'r plant ddysgu dan do. Roedd y plant yn cael eu cefnogi a'u hannog yn llwyr i gymryd rhan ac arbrofi yn ystod gweithgaredd paentio. Gwnaethant baentio yn rhydd a chymysgu lliwiau wrth ddefnyddio corc i stampio er mwyn creu lluniau hydrefol a oedd yn

rhoi ymdeimlad da iawn o gyflawni rhywbeth ac o hunan-barch. Yn hwyrach, ar ôl tacluso, gwnaeth y plant gymryd rhan lawn mewn gweithgaredd dawnsio y gwnaeth pawb ei fwynhau gan eu bod yn datblygu sgiliau corfforol.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn llwyr. Roeddent yn cael cyfleoedd heriol ac amrywiol i ddatblygu eu hannibyniaeth fel tynnu eu hesgidiau i ffwrdd, mynd i nôl teganau a oedd yn adlewyrchu diddordebau unigol, defnyddio'r toiled, golchi a sychu dwylo. O dan oruchwyliaeth yn ystod amser byrbryd, gwnaethant baratoi eu ffrwythau eu hunain gan ddefnyddio cyllyll sy'n addas ar gyfer plant, ac arllwys eu diodydd eu hunain. Mae'r plant yn cael eu hannog i werthuso eu gweithgareddau drwy ymateb i holiaduron.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ac yn annog ffordd iach o fyw. Mae wedi meithrin cydberthnasau cartrefol a magwrus. Caiff y rhyngweithio rhwng y plant ei reoli'n gyson ac yn effeithiol. Caiff datblygiad y plant ei hyrwyddo'n effeithiol ac mae cynnydd y plant yn cael ei ddogfennu'n dda a'i adolygu'n gyson. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth drylwyr o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol.

### Ein canfyddiadau

Roddir blaenoriaeth i iechyd a diogelwch y plant yn y lleoliad hwn. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Gwelsom dystiolaeth o waith glanhau trylwyr ar ôl pob gweithgaredd er mwyn sicrhau diogelwch pob plentyn. Roedd y gwarchodwr plant yn deall diogelu yn llwyr, ac yn gwybod pa broses i'w dilyn os oedd ganddi unrhyw bryderon ynghylch diogelu plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân misol ac yn gwirio'r larwm tân, y blancedi tân a'r bocs cymorth cyntaf ac yn cofnodi'r gwiriadau hynny. Caiff presenoldeb y plant ei gofnodi. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi arferion hylendid cadarn ar waith yn gyson mewn perthynas â newid cewynnau a hefyd o ran golchi dwylo, ac roedd tywelion unigol yn cael eu darparu i'r plant er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffordd iach o fyw yn gyson ac yn sicrhau bod dŵr ar gael yn hawdd i'r plant bob amser. Mae'n sicrhau bod byrbrydau yn iach, a bod y plant yn ymwybodol o fuddiannau bwyta ffrwythau wrth iddynt eu paratoi.  Roedd gweithgarwch corfforol yn cael ei hyrwyddo ac roedd yn amlwg bod y plant yn ei fwynhau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y gwarchodwr plant yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac mae'n rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Roedd yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddi wybodaeth drylwyr am eu datblygiad a'r ffordd y gall hyn, a ffactorau eraill, effeithio ar eu hymddygiad. Gwelsom y plant yn anghytuno dros lyfr, ac aethpwyd i'r afael â'r mater ar unwaith. Esboniodd y gwarchodwr plant bwysigrwydd rhannu mewn ffordd amyneddgar, a thynnodd sylw at lyfr arall er mwyn helpu i ddatrys y mater, ac roedd pawb yn hapus. Mae'r gwarchodwr plant yn ymddwyn fel model rôl rhagorol bob amser, a gafodd ei adlewyrchu'n glir pan wnaeth plentyn bach ddarllen i'r plant eraill a holi cwestiynau am y lluniau. Mae'r plant yn cael eu canmol yn gyson a chaiff pob cyflawniad ei ddathlu. Roedd y plant yn cael eu hannog i fod yn gwrtais ac yn garedig i'w gilydd. Roedd y gwarchodwr plant yn ymatebol yn gyson ac yn gwrando ar farn y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn dangos cynhesrwydd, caredigrwydd a pharch tuag at y plant.

Mae gan y gwarchodwr plant wybodaeth gynhwysfawr am ddatblygiad y plant, a gaiff ei gofnodi, ac mae'n ymrwymedig i gynnig amrywiaeth ragorol o weithgareddau chwarae a dysgu. Caiff y cofnodion datblygu cynhwysfawr eu defnyddio i bennu camau dysgu unigol, a gwelsom y gwarchodwr plant yn canolbwyntio ar enwi rhannau o'r corff gydag un plentyn

mewn gweithgaredd chwarae, gan ddiwallu anghenion y cynllun dysgu unigol. Rhoddir y cofnodion i'r rhieni pan fo plentyn yn gadael y gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn treulio amser yn effeithiol pan mae'n sgwrsio â'r plant, ac mae'n nodi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Roedd plant bach yn gallu adnabod rhifau ar hap yn Gymraeg ac yn Saesneg gan fod y gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r ddwy iaith mewn ffordd gadarnhaol bob amser. Caiff gweithgareddau eu cynllunio yn wythnosol gan ddilyn themâu penodol. Maent yn dangos datblygiad, yn nodi a oes angen cymorth, ac yn dangos dealltwriaeth dda o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Hefyd, rhoddir amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant gysylltu'r pynciau y maent yn eu trafod â bywyd go iawn. Gwelsom dystiolaeth ar ffurf lluniau o ymweliadau â'r deintydd, meddygfeydd meddygon a milfeddygon, yn ogystal ag ymweliadau â fferm, teithiau i'r goedwig, y sŵ a'r RSPB. Mae hyn yn rhoi perthnasedd i'r hyn y maent yn dysgu amdano, ac yn gwneud eu profiadau yn fwy cofiadwy.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 3. Yr Amgylchedd — Da

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plant. Mae wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys lle dan do da er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Hefyd, mae lle addas yn yr awyr agored sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod amrywiaeth o deganau a chyfarpar o ansawdd da ar gael i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau effeithiol ar waith i sicrhau lles a diogelwch y plant. Mae'n mynd gyda'r plant i'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau bob amser. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y gwarchodwr plant wedi darparu asesiad risg manwl a chyfredol, a gwelsom dystiolaeth bod cynlluniau gweithredu dyddiol ar waith a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Caiff y drysau allanol eu cloi bob amser. Mae ganddi systemau da ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd, a chynhelir gwiriadau diogelwch ar gyfarpar.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal addas dan do lle gall y plant symud yn rhydd. Mae'r lolfa yn ystafell fawr a golau sydd wedi'i gosod i gynnwys ardaloedd gwahanol. Roedd adnoddau wedi cael eu gosod ymlaen llaw ac roeddent ar gael i bob plentyn. Mae'r amgylchedd yn groesawgar iawn ac mae gwaith y plant wedi'i arddangos sy'n rhoi ymdeimlad cryf o berthyn. Roedd y gwarchodwr plant wedi gwneud addasiadau i'r mynediad o'r gegin i'r lolfa, ac mae bellach yn haws mynd o un ystafell i'r llall, ac yn haws gallu gweld rhwng y ddwy ystafell.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar yr adnoddau a'r teganau. Caiff yr adnoddau eraill eu cadw mewn uned storio sy'n hawdd mynd ati ac sy'n cynnwys labeli dwyieithog a lluniau. Mae'r bwrdd synhwyrau yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a chwarae i'r plant ac mae'r plant yn ei ddefnyddio ac yn ei fwynhau'n fawr. Mae cynnwys y bwrdd hwn yn cyfateb i'r thema dysgu a chwarae, a gwelsom luniau o'r rhai gwahanol sydd wedi cael eu creu. Rhoddir llawer o deganau pren i'r plant ac adnoddau sy'n hyrwyddo amrywiaeth ac sy'n ysgogi chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach. Siaradodd y gwarchodwr plant â ni am ei chynlluniau i ddod yn wasanaeth ddi-blastig yn y dyfodol. Roedd y gwarchodwr plant yn gallu dangos llawer o'r teganau addysgol sydd ganddi yn unol â'i chynllun gweithredu. Hefyd, dangoswyd byrddau arddangos addysgol i ni y mae'n eu defnyddio i ddatblygu sgiliau'r plant ymhellach.

## 4. Arwain a Rheoli — Da

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ac yn arfer ei chyfrifoldebau o ran y rheoliadau. Mae'n sicrhau ei bod yn dilyn cyrsiau perthnasol er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth hwn ac mae'n diweddaru ei gwybodaeth ac yn ymgyfarwyddo â'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn datblygu ymhellach. Mae wedi darparu ffeil polisïau gynhwysfawr ac mae'n sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu cynnwys mewn arferion dyddiol a bod diweddariadau yn eu cofnodi. Mae'n rhoi datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru i'r rhieni fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom samplau o ffeiliau'r plant a gwelsom eu bod yn gyflawn a bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chofnodi. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi system hunanwerthuso ar waith ac mae wedi casglu barn y plant a'u rhieni. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn ar amrywiaeth o weithgareddau a chaiff eu hymateb ei gofnodi. Dyma un o'r ymatebion: *'I don't like it, I love it!'* Mae'r rhieni yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn mewn holiadur ar ôl i'r plant setlo, ac mewn holiadur blynyddol ar ansawdd y gofal. Dyma rai o'r sylwadau gorau: *'Excellent service in every way…'* *'Don't change anything – everything is great!'* *'…top-class service that stimulates children.'* Roedd y gwarchodwr plant wedi paratoi adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth a gwnaethom argymell y dylai fabwysiadu'r arfer da o anfon copi i AGC bob blwyddyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn cymryd ei chyfrifoldebau o ddifrif ac mae'n hunanddisgybledig. Mae'n gweithio'n ddiwyd i reoli ei hamser a'i hadnoddau. Mae wedi sicrhau bod yr holl wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol a bod yr holl wiriadau diogelwch ac yswiriannau yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu â'r rhieni yn effeithiol. Mae'r rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y plant ac maent yn cael y cyfle i gofnodi camau datblygu gartref. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi taflenni cofnodi cyfnodau 'WAW' iddynt a gaiff eu cadw wedyn yn ffeiliau'r plant. Un enghraifft a welsom oedd y ffordd yr oedd un rhiant wedi synnu i ddysgu am wybodaeth ei blentyn am wenyn – roedd y plentyn wedi dysgu hyn i gyd pan oedd yng ngofal y gwarchodwr plant. Mae'r system gofnodi ddwy ffordd hon yn sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu. Roedd dyddiaduron ar gael ar gyfer babanod iau a gwelsom enghraifft o ddyddiadur, er nad oedd plant yn yr ystod oedran honno yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Mabwysiadu'r arfer da o anfon yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal i AGC

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd, er ein bod wedi ffonio yn fuan cyn yr ymweliad i gadarnhau bod y gwarchodwr plant ar gael. Cynhaliwyd yr arolygiad ar ddydd Llun 30 Medi 2019 rhwng 8:35 a 14:05. Gwnaethom drefnu i ffonio'r gwarchodwr plant er mwyn rhoi adborth iddi ddydd Mercher 2 Hydref 2020.

Gwnaethom;

- arsylwi ar weithgareddau dan do;
- edrych ar wybodaeth a oedd gan AGC, gan gynnwys adroddiad o'r arolygiad blaenorol, y datganiad o ddiben, yr adroddiad blynyddol o ansawdd y gofal ac ymatebion i'r Hunan-asesiad;
- siarad yn fanwl â'r gwarchodwr plant;
- edrych ar amrywiaeth eang o ddogfennau gan gynnwys polisïau, cofnodion a ffeiliau'r plant;
- arsylwi ar amrywiaeth o weithgareddau a sgwrsio â'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Michelle Hughes** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **9** |
| **Ystod oedran y plant** | **Hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **8:00 – 17:30**<br>**O ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Dwyieithog** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **04 Ionawr 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **30 Medi 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/03/2020